# HANES DYNEIDDIAETH YNG NGHYMRU

Mae Cymru wedi hen fod yn genedl o anghydffurfwyr, yn meddu ar hanes o herio nerth a dylanwad yr eglwys sefydledig. Mae hanes rhydd-feddwl cynnar Cymru ynghlwm yn agos wrth gwestiynau o genedlaetholdeb a hunaniaeth Gymreig ac wrth ymdrechion o bob math - gan ddynion a menywod o bob cefndir - i wneud bywydau pobl yn well. Yn ystod y 1800au, dan ddylanwad syniadau dyneiddiol trwy fudiadau fel Siartiaeth, Oweniaeth a'r mudiad Moesegol gwelwyd llawer o Gymry yn cael eu hysbrydoli i weithredu er lles pobl eraill, yn seiliedig ar beth y gallent ei weld a'i wneud ar y ddaear - nid mewn gobeithion am nefoedd yn y dyfodol. Gwelodd yr 20ed ganrif - yn arbennig wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf - twf mewn seciwlariaeth, gostyngiad yn y nifer yn mynychu eglwys a thyfiant grwpiau dyneiddiol cyfundrefnol. Heddiw disgrifia 50% o bobl yng Nghymru eu hunain yn meddu ar 'ddim crefydd' ac mae llawer o rhain yn arddel gwerthoedd dyneiddiol.

## HANES CYNNAR CYMRU

Cyn dyfodiad Cristnogaeth yn ystod y ganrif 1af OC, roedd Cymru, fel rhannau eraill o Ynysoedd Prydain, yn gartref i amrywiaeth o wahanol gredoau crefyddol. Mae tystiolaeth o rhain yn cynnwys claddedigaethau defodol, adeiladweithiau carreg a chylchoedd, y gallwn ond damcaniaethu am eu hystyron. Pan oresgynnodd y Rhufeiniaid yn 43 OC, fe gyfunon nhw eu duwiau eu hunain gyda rhai brodorol Prydeinig. Tra roedd hynny ddim yn bygwth nerth y Rhufeiniaid, ymddengys fod pobl yn gallu parhau i ddilyn eu traddodiadau eu hunain. Erbyn diwedd y 4edd ganrif, fodd bynnag, roedd Cristnogaeth wedi datblygu'n grefydd swyddogol yr Ymherodraeth Rhufeinig. Fel yn Lloegr, Iwerddon a'r Alban, gwnaeth nerth rheolau Cristnogol ddatgan syniadau dyneiddiol neu herio crefydd yn beryglus dros nifer fawr o ganrifoedd o flynyddoedd.

## YR YMOLEUO

Cychwynnodd y cyfnod hanesyddol a adwaenir fel yr Ymoleuo (neu weithiau fel yr Oes Rheswm) yn yr 17eg ganrif a gwelwyd ffydd newydd yn rheswm dynol i ddarganfod cyfreithiau naturiol a hawliau dynol. Yn ystod y cyfnod hwn, ymddangosodd syniadau fel deistiaeth. Credai deistiaid y gellid darganfod gwirionedd trwy reswm a thrwy ddefnyddio'r synhwyrau, a herio awdurdod llyfrau cysegredig. Yn cynnwys Thomas Morgan (m. 1743) a David Williams (1738-1816).



Symudodd David Williams i Lundain yn Lloegr ac agorodd ysgol yno. Disgrifiodd ei syniadau deistaidd fel 'crefydd natur', y gobeithiai y gellid dod â phawb at ei gilydd tra'n gadael iddynt feddwl drostynt eu hunain. Yn fwy na dim, credai Williams yn hawl pob person i ffurfio'u syniadau eu hunain am bethau, yn seiliedig ar eu rheswm eu hunain. Fel y bobl eraill y cyfeiriwyd atynt, roedd e'n 'rhydd-feddyliwr', yn golygu dim byth dderbyn bod rhywbeth yn wir heb feddwl amdano yn gyntaf drosoch eich hunan.

David Williams gan John Thornthwaite © National Portrait Gallery, Llundain CC BY-NC-ND 3.0

Yn y 1700au hefyd, gwelwyd geni Robert Owen yn Y Drenewydd, y byddai ei syniadau yn ysbrydoli mudiad yn seiliedig ar gydweithredu a gwellhad cymdeithasol - yn canolbwyntio ar beth gallai bodau dynol ei wneud er mwyn gwneud y byd yn lle gwell, heb ddibynnu ar unrhyw dduw i'w helpu.




Robert Owen gan William Henry Brooke olew ar gynfas, 1834 © National Portrait Gallery, Llundain CC BY-NC-ND 3.0

 © HUMANISTS UK 2022

## SIARTIAETH

Roedd eraill yng Nghymru, fel Zephaniah Williams, yn siartwyr: gymerodd eu henw o 'siarter y bobl' a luniwyd ganddynt. Roedd siartwyr am weld pob oedolyn gwrywaidd yn cael yr etholfraint, yn credu y byddai bod hebddi yn cyfyngu eu gallu i ddylanwadu ar newid a gwella eu hamodau gwaith a bywyd. Byddai llawer o ddyneiddwyr diweddarach hefyd yn ymgyrchu dros yr hawl i fenywod bleidleisio. Roedd Zephaniah Williams, fel Robert Owen, yn rhydd-feddyliwr ac roedd y ddau yn credu mai yn nwylo bodau dynol oedd y gallu i wella pethau. Buont yn defnyddio'u rheswm i ddod i gasgliad ynglŷn â sut y dylid trefnu cymdeithas ac fe'u hysgogwyd gan eu tosturi dros bobl eraill i geisio newid pethau.


TO THE

Men & Women

OF

NEWPORT.

MY FRIENDS,

You have ever found me your consistent and dauntless advocate, I have a right, therefore, to expect you are my Friends.

I am informed upon unquestionable authority that your local rulers are anxious to arrest me to night. LET THEM TAKE ME. If their conduct be legal---*well!* If illegal, they shall hereafter rue it. At the worst my detention can but be for a few days---and as Philosophy is every thing, the jails of our tyrants do not appal me.

Efforts are being made to frighten the people by calling our meetings illegal.---I never attended an illegal meeting---and there have been none of an illegal nature held within the precints of Newport, *save one held lately at Christchurch, where a man named Phillips told the mob to make their horses stand fire, and keep their powder dry!*

I am told your Magistrates are about to swear in persons as Special Constables. They have their reasons for so doing; I believe them to be bad ones, and will with your assistance, turn the mischief they may contemplate into an engine for their own legal destruction.

Meet me to night at Pentonville, where I shall do myself the honour of addressing you.

Keep the Peace I charge you!---The slightest indications of tumult on our part would afford our enemies a pretext for letting loose their Bloodhounds on us.

**Keep the Peace**

and laugh your enemies to scorn!

*Your devoted Friend,*

**HENRY VINCENT.**

APRIL 25th, 1839.

John Partridge, Pri[illegible]er, Newport

**Argraffen Siartaidd** – I ddynion a menywod Casnewydd Casgliad Pobl Cymru. Trwydded Archif creadigol

## DATBLYGIAD DYNEIDDIAETH FODERN

Roedd y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg yn gyfnod o newid aruthrol a darganfyddiadau pwysig. Yng Nghymru, fel y gwelsom, gwelwyd mudiadau fel Siartiaeth ac Oweniaeth yn ysgogi pobl i ymgyrchu dros fwy o hawliau a bywyd o well ansawdd. Roedd llawer o'r bobl yn ymwneud â'r mudiadau hyn yn rhydd-feddylwyr. Heddiw, mae llawer o'r syniadau sy'n cael eu harddel gan rydd-feddylwyr yn rhai y byddem yn eu galw yn ddyneiddiol.

Helpodd deallusrwydd gwyddonol newydd (fel damcaniaeth Charles Darwin am esblygiad) i roi esboniadau am y byd yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth. Datblygodd y Cymro, Alfred Russel Wallace (1823-1913), ddamcaniaeth am esblygiad ar yr un pryd â Charles Darwin a chyhoeddwyd eu gweithiau ar y cyd â'i gilydd. Newidiodd y syniadau hyn y ffordd y deallai pobl ddechreuad bodau dynol ac arweiniodd at lawer o bobl i gwestiynu eu credoau crefyddol.

Tua diwedd y 19eg ganrif, dechreuodd grwpiau o'r enw cymdeithasau moesegol ffurfio yn y DU. Byddai llawer yn ddiweddarach yn eu hailenwi eu hunain yn gyrff dyneiddiol. Cawsant eu dylanwadu gan ddiwygiwr cymdeithasol o America o'r enw Felix Adler, a oedd wedi cychwyn cymdeithas yn Efrog Newydd gyda'r arwyddair 'gweithred nid credo', yn golygu nad oedd rhaid i chi fod yn grefyddol i wneud daioni yn y byd. Gobeithiai uno pobl o bob credo gyda'i gilydd i fyw bywydau da, a gweithio dros newid. Roedd yna nifer o Gymdeithasau Moesegol (a grwpiau dyneiddiol yn ddiweddarach) yng Nghymru.

## DATGYSYLLTIAD A DELFRYDAU SECIWLAR

Galluogodd y Ddeddf Eglwys Gymreig 1914 ddatgysylltiad Eglwys Loegr yng Nghymru a chreu Eglwys yng Nghymru annibynnol - ond un ar wahân i'r wladwriaeth. Roedd hyn yn rhywbeth yr oedd llawer o bobl ddigrefydd wedi ymgyrchu drosto, ochr-yn-ochr gydag eraill oedd yn anghytuno gydag Eglwys Loegr yn meddu ar ragorfreintiau arbennig yng Nghymru. Oherwydd y Rhyfel Byd Cyntaf, ni ddaeth y Ddeddf i rym tan 31 Mawrth 1920.



Gwrthdystiad Datgysylltiad yn Abertawe, 28 Mai 1912. Casgliad Pobl Cymru. Trwydded Archif creadigol

Yn ystod yr 20ed ganrif, chwaraeodd Dyneiddwyr Cymreig rannau pwysig yn y celfyddydau, gwyddoniaeth, gwleidyddiaeth a llawer mwy. Goruchwyliodd un, Nye Bevan, creu'r Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol (GIG) - wnaeth gofal iechyd yn rhad ac am ddim i bawb oedd ei angen. Fel y dywedodd ei wraig, Jennie Lee: 'Roedd Nye yn ddyneiddiwr mawr a lleolwyd ei grefydd yng ngharu ei gyd-ddyn a cheisio'u gwasanaethu'



**Aneurin Bevan**, Gweinidog Iechyd, ar ddiwrnod cyntaf y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol, 5 Gorffennaf1948 yn Park Hospital, Davyhulme, ger Manceinion.

 © HUMANISTS UK 2022

# HEDDIW

Heddiw, disgrifia 50% o bobl yng Nghymru eu hunain yn 'ddigrefydd' ac mae Dyneiddwyr Cymru yn amcanu at weithio gyda Llywodraeth Cymru a phobl o ewyllys da o bob cefndir er mwyn cyrraedd sefyllfa lle mae pawb yng Nghymru yn cael eu trin yn gyfartal, waeth be fo'u crefydd neu gredo.

## CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Y Senedd oedd llywodraeth cyntaf gwlad yn y DU i'w greu ar sail delfrydau seciwlar. Yn wahanol i'r senedd yn San Steffan, `does `na ddim gweddïau Anglicanaidd fel rhan o fusnes cyfarfodydd y Senedd ac ni chaiff unrhyw aelod rhagorfraint na bod dan anfantais oherwydd eu crefydd neu gredoau. Mae sail seciwlar y Senedd hefyd yn cael effaith bwysig ar y modd y gwneir penderfyniadau a deddfu: ar sail tystiolaeth a hawliau dynol a chydnabod y gwahanol grefyddau niferus yng Nghymru heddiw.



Roedd Rhodri Morgan, ddaeth yn Brif Weinidog Cymru yn 2000, yn ddyneiddiwr. Pan fu farw yn 2017, ei angladd oedd yr un ddyneiddiol gyhoeddus gyntaf yn y Deyrnas Unedig.

Rhodri Morgan yn agoriad swyddogol y Senedd, 2011.
Senedd Cymru CC BY 2.0



# GEIRFA

**Deistiaeth**

Y gred bod rhyw dduw wedi creu'r byd a rheolau natur, ond sydd ddim yn ymyrryd ym materion dynol.

**Datgysylltiad**

Mae Datgysylltiad yn digwydd pan fod gwlad yn cael gwared â statws swyddogol crefydd. Datgysylltwyd Eglwys Loegr yng Nghymru ym 1920.

**Ymneilltuwr**

Ymneilltuwr yw rhywun sy'n gwrthod dilyn yr eglwys sefydledig. Mae hyn yn debyg i anghydffurfiwr.

**Rhydd-feddyliwr**

Rhydd-feddyliwr yw person sy'n ffurfio'i syniadau a thybiaethau trwy feddwl drostynt eu hunain, yn hytrach na derbyn awdurdod yn ddi-gwestiwn

**Dyneiddiwr**

Creda dyneiddiwr mewn dyneiddiaeth, y syniad y gall pobl fod yn hapus a byw bywyd llesol heb grefydd, gan ddefnyddio rheswm a thosturi i'w harwain.

**Hawliau**

Eich hawliau yw beth sydd yn foesol neu gyfreithiol i chi eu gwneud neu eu cael.

**Seciwlar**

Disgrifia seciwlar beth sydd ddim yn grefyddol, neu ar wahân i'r eglwys a chrefydd.

**Etholfraint**

Etholfraint yw hawl pobl i bleidleisio dros lywodraeth neu arweinydd.

 © HUMANISTS UK 2022